# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 1 Rhagfyr 1999

[R] yn dynodi bod yr aelod yn dangos buddiant.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
12 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16


## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Uned Trawsblannu Arennau (Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd)

**C5 David Davies:** A all Jane Hutt ein sicrhau nad yw'r uned trawsblannu arennau yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd mewn perygl o gau? (OAQ2316)

**Jane Hutt:** Derbyniais sicrwydd oddi wrth Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Prifysgol Cymru ac Ysbyty Llandochau a Chomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sydd yn comisiynu'r gwasanaeth hwn ar ran awdurdodau iechyd, eu bod wedi ymrwymo'n llwyr i gadw'r gwasanaeth hwn yn weithredol. Er bod dau o'r pedwar llawfeddyg ymgynghorol sydd yn gysylltiedig â thrawsblannu arennau yn Ysbyty Prifysgol Cymru i adael cyn hir, mae'r ysbyty'n ffyddiog y gall gynnal y gwasanaeth hwn gyda'r ymgynghorwyr sydd yn aros tra bydd yn ymdrechu i benodi i'r swyddi gwag.

### Profion Llygaid am Ddim

**C6 Dai Lloyd:** A wnaiff Jane Hutt ystyried cyfeirio mater profion llygaid am ddim i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol iddynt ei drafod? (OAQ2341)

**Jane Hutt:** Codwyd mater profion llygaid am ddim i bawb sawl gwaith, a'r tro diwethaf yr wythnos diwethaf pan drafododd y Pwyllgor gynigion y gyllideb. Yn y cyfarfod hwnnw mynegasoch bryder y dylai'r mater hwn gael ei drafod yn llawn a rhoddais ymrwymiad y bydd dadl yn Chwefror y flwyddyn nesaf, os nad ynghynt.

### Canoli Gwasanaethau Arhosiad Byr

**C7 Peter Rogers:** Pa fesurau y mae Jane Hutt yn eu cymryd i sicrhau na fydd unrhyw gamau i ganoli gwasanaethau arhosiad byr yn effeithio'n ddrwg ar gleifion mewn ardaloedd gwledig? (OAQ2365)

**Jane Hutt:** Mae'r Grŵp Datblygu Gwasanaethau Arhosiad Byr i fod i adrodd yng ngwanwyn 2000 ar yr egwyddorion a ddylai fod yn sylfaenol wrth gyflunio gwasanaethau arhosiad byr yn y dyfodol. Bydd mynediad yn ystyriaeth allweddol.

Yn y cyfamser, mae cyflunio a darparu gwasanaethau ysbyty unigol yn fater i awdurdodau iechyd sydd â'r cyfrifoldeb o asesu'r angen iechyd lleol a, gan weithio gyda darparwyr gwasanaethau gofal iechyd ac eraill, cynllunio a threfnu blaenoriaeth gwasanaethau er mwyn ateb yr angen hwnnw oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael.

### Ymarferwyr Meddygol yn Tan-gyflawni

**C8 Kirsty Williams:** O gofio cyhoeddiadau diweddar gan Alan Milburn, Ysgrifennydd

Gwladol Iechyd Prydain ynghylch y teimlad bod ymarferwyr meddygol yn tan-gyflawni, sut caiff y cynlluniau hyn eu rhoi ar waith yng Nghymru? (OAQ2309)

**Jane Hutt:** Er bod swyddogion yn yr Adran Iechyd ac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cydweithio ar y ddogfen ymgynghorol, penderfynodd y Prif Ysgrifennydd y bydd dogfen ar wahân yn cael ei chynhyrchu ar gyfer Cymru, a fydd yn ymdrin â'r problemau penodol a wynebir yng Nghymru.

## Llawfeddygaeth y Galon

**C9 Elin Jones:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch lefel gyfredol y ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer llawfeddygaeth y galon? (OAQ2345)

**Jane Hutt:** Mae lefel gyfredol y ddarpariaeth ar gyfer llawfeddygaeth y galon wedi ei hystyried gan Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio a chomisiynu'r gwasanaeth hwn ar ran y pum awdurdod iechyd. Cyflawnir tua 400 o impiadau osgoi rhydwelïau coronaidd ynghyd â 150 gweithdrefn i bob miliwn o'r boblogaeth ymysg cleifion ag afiechyd falfaidd ac afiechyd cynhenid y galon mewn rhai yn eu llawn dwf yng Nghymru bob blwyddyn. Hefyd defnyddir tua 280 angioplasti y filiwn o'r boblogaeth i drin afiechyd rhydwelïau coronaidd.

Cyflawnodd y Comisiwn adolygiad cynhwysfawr yn ddiweddar o wasanaethau calonnol arbenigol i oedolion ledled Cymru, gan gynnwys llawfeddygaeth y galon, a chyflwynodd adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn nodi ei gyngor a'i argymhellion i wella'r gwasanaeth hwn. Y prif argymhellion sydd yn ymwneud â chynyddu'r ddarpariaeth yw y dylid darparu lefel o 750 impiad osgoi rhydwelïau coronaidd a 750 angioplasti y filiwn o'r boblogaeth ynghyd â chardioleg gysylltiedig. Mae'n argymell ymhellach bod rhaid i unrhyw gynnydd mewn angioplastïau ac impiadau osgoi rhydwelïau coronaidd ddigwydd mewn cysylltiad â chynnydd mewn gwasanaethau ailsefydlu y galon.

Afiechyd coronaidd y galon yw un o'r achosion marwolaeth mwyaf yng Nghymru, a chynigiaf ddarparu £1.5 miliwn o'r flwyddyn nesaf ymlaen i helpu i liniaru'r pwysau difrifol ar wasanaethau i'r galon.

## Arferion Gwaith Ymarferyddion Cyffredinol

**C10 Carwyn Jones:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddiwygio arferion gwaith ymarferyddion cyffredinol er mwyn i'r cyhoedd allu eu gweld ynghynt? (OAQ2332)

**Jane Hutt:** Nid oes dwywaith bod y mater hwn yn peri pryder a sylw eang. Fodd bynnag, mae ymarferyddion cyffredinol yn gontractwyr annibynnol sydd yn darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Maent yn gallu arfer doethineb a rhyddid o ran y modd y byddant yn rhedeg eu practisiau. Gyda'r ymreolaeth hon daw'r cyfrifoldeb gweinyddol ac ariannol dros redeg y practis a'r cyfrifoldeb hefyd dros y gwasanaethau clinigol a ddarperir.

Dylid hysbysu'r awdurdod iechyd os yw ymarferydd cyffredinol yn bwriadu gweithredu neu derfynu system apwyntiadau ond nid oes ganddo awdurdodaeth i gyfarwyddo ymarferydd cyffredinol i gynnig apwyntiad i gleifion oddi mewn i amser penodol. Mae ymarferyddion cyffredinol o dan eu hamodau gwasanaeth yn gorfod darparu unrhyw driniaeth angenrheidiol yn ddi-oed os bydd yn ofynnol mewn argyfwng.

## Apwyntiadau Cleifion Allanol (Awdurdod Iechyd Bro Taf)

**C11 Jonathan Morgan:** A wnaiff Jane Hutt ddatgelu nifer y bobl yn Awdurdod Iechyd Bro

Taf a oedd yn aros mwy na chwe mis am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol ar 31 Mawrth 1997 ac yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael? (OAQ2366)

**Jane Hutt:** Nifer trigolion Awdurdod Iechyd Bro Taf a fu'n aros mwy na chwe mis am apwyntiad claf allanol cyntaf yw:

| | **31 Mawrth 1997** | **31 Hydref 1999** |
|---|---|---|
| **Cleifion allanol a fu'n aros mwy na chwe mis** | 1,886 | 10,515 |

Mae tuedd cynyddol yn yr atgyfeiriadau i glinigau cleifion allanol yng Nghymru ers rhai blynyddoedd, ac mae'r cynnydd yn parhau. Yr oedd nifer yr atgyfeiriadau yn 1998-99 yn 4.5 y cant yn uwch nag yn 1997-98. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd o 4 y cant yng nghyfanswm nifer y cleifion mewnol a'r achosion dydd, mae nifer y cleifion allanol newydd wedi codi 1 y cant a bu tuedd cynyddol hefyd yn nifer y derbyniadau brys.

Dyfarnwyd 10.5 y cant o gynnydd i NHS Cymru yn eu dyraniad arian dewisol eleni. Mae hyn yn cynnwys £19 miliwn sydd ar gael yn rheolaidd yn awr i alluogi awdurdodau lleol i barhau i leihau rhestrau aros.

Mae'r Cynulliad wedi cyllido dau adolygiad rheoli cleifion allanol eleni er mwyn gwella rheolaeth clinigau cleifion allanol, lleihau amseroedd aros a gwella'r ddealltwriaeth a'r rheolaeth o restrau aros cleifion allanol.

Sefydlwyd Grŵp Datblygu Strategaeth Amseroedd Aros, sydd yn cynrychioli'r holl gyfranddeiliaid allweddol, yn cynnwys clinigwyr, ymarferyddion cyffredinol a chynrychiolwyr cleifion. Bydd y grŵp yn datblygu syniadau newydd i ymdrin â rhestrau ac amseroedd aros, gan ganolbwyntio ar y cyfnod amser y mae'n rhaid i gleifion aros a'u blaenoriaeth glinigol. Bydd y grŵp yn adolygu'r rheolaeth ar y galw.

### Argymhelliad y Gymdeithas Glaucoma Ryngwladol

**C12 Ieuan Wyn Jones:** Beth yw ymateb Jane Hutt i argymhelliad y Gymdeithas Glaucoma Ryngwladol i ddarparu profion llygaid am ddim? (OAQ2339)

**Jane Hutt:** Nid wyf yn ymwybodol bod y Gymdeithas Glaucoma Ryngwladol wedi argymell darparu profion llygaid am ddim i bawb ond gwelais lythyr diweddar y gymdeithas ynghylch hyrwyddo tri phrawf glaucoma. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn mewn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd y llynedd gan Goleg yr Optometryddion ar gyfer ei aelodau a ddynododd y dylid profi gwasgeddau a meysydd yn achos cleifion sydd yn 40 oed a drosodd, neu rai sydd yn dangos fel arall eu bod mewn perygl o gael glaucoma. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried bod hyn yn ymarfer da.

Mae'r dyletswyddau sydd i'w cyflawni ynghylch profion llygaid boed yn breifat neu yn yr NHS i'w cael mewn rheoliadau a wnaethpwyd o dan y Ddeddf Optegwyr 1958, sydd heb ei datganoli.

### Ysbyty Clydach

**C13 Alun Cairns:** Beth yw'r diweddaraf ynghylch yr ymdrechion i ddefnyddio'r cyfleusterau yn Ysbyty Clydach? (OAQ2331)

**Jane Hutt:** Mae dyfodol Ysbyty Clydach yn fater i Iechyd Morgannwg Health, a gaeodd yr ysbyty yn 1997, fel cam brys dros dro. Mae'r awdurdod iechyd bellach yn gweithio ar y cyd

ag Ymddiriedolaeth NHS Abertawe, y grŵp iechyd lleol a'r cyngor iechyd cymdeithas ar ymarferiad cynhwysfawr i ganfod y farn leol ar ddefnydd priodol i adeilad yr ysbyty yn y dyfodol.

Cyflwynir canlyniadau'r ymarferiad hwn, a fydd yn amlinellu'r dewisiadau a ffafrir, i fwrdd yr awdurdod iechyd yn ei gyfarfod yn Chwefror a phenderfynir pa bryd y bydd ymgynghori cyhoeddus ffurfiol yn digwydd.

## Cleifion MRSA

**C14 Lorraine Barrett:** A all Jane Hutt ddweud faint o gleifion yr effeithir arnynt gan awrëws staffylococws methicillin wrthiannol yn yr NHS yng Nghymru, a oes ganddi unrhyw ffigurau ar gyfer effaith hyn ar restrau aros ac a all roi manylion ynglŷn â'r camau a gymerwyd yn y maes hwn? (OAQ2373)

**Jane Hutt:** Rhannaf eich pryder ynghylch awrëws staffylococws methicillin wrthiannol a'r boen a'r gofid y mae'n ei achosi i unigolion, yn ogystal â'i effaith ar restrau aros oddi mewn i'r NHS. Y cyfraddau o heintiad MRSA yng Nghymru, a gofnodwyd gan Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy Cymru yw:

| | |
|---|---|
| 1996 | 2699 |
| 1997 | 5203 |
| 1998 | 5659 |
| 1999 | 3722 (hyd at 31/07/99) |

Mae'r gweithdrefnau arolygu yng Nghymru'n rhagorol. Mae arolygu manwl o gymorth wrth gynyddu ymwybyddiaeth o MRSA a'r angen am yr ymarfer gorau mewn gweithdrefnau rheoli haint. Mae nifer o strategaethau ar waith er mwyn hybu gweithdrefnau rheoli haint effeithiol, yn enwedig mewn lleoliadau mewn ysbytai, cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio.

Yr ydym wedi darparu £140,000 i Wasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru i'w alluogi i gyllido arolwg tair-blynedd o heintiadau mewn ysbytai. Mae'r pum labordy iechyd y cyhoedd yng Nghymru ac Uned Gymreig y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy wedi ymrwymo i'r prosiect hwn, a fydd yn cyfrannu at welliannau mewn ymarfer clinigol wrth reoli heintiadau. Bydd datblygu system adrodd cychwyniadau'r astudiaeth yn caniatáu lledaenu gwybodaeth yn gyflym yn ogystal â rhoi gwybod am y profiad a enillwyd ar raddfa eang. Mae Uned Gymreig y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy yn ymgymryd â phrosiect arolygu penodol ar achosion MRSA. Cynhaliwyd seminarau i annog cyfranogiad yn yr astudiaeth ac mae dros 18 ysbyty dosbarth a labordy iechyd y cyhoedd yn cymryd rhan erbyn hyn.

Bydd y gwaith hwn, ynghyd â'r cyfarwyddyd helaeth ar weithdrefnau rheoli haint a gyhoeddwyd eisoes, yn cyfrannu at sicrhau'r nifer lleiaf posibl o heintiadau a geir mewn ysbyty.

Mae'r swm o £19 miliwn ar gael yn rheolaidd i awdurdodau iechyd o 1999-2000 i reoli a lleihau amseroedd aros. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi comisiynu datblygu Strategaeth Amseroedd Aros gynhwysfawr dymor canolig i Gymru.

## Gwasanaeth Ambiwlans 24 awr (Powys)

**C15 Nick Bourne:** A fydd Jane Hutt yn gwneud datganiad ar wasanaeth ambiwlans 24 awr ym Mhowys? (OAQ2306)

**Jane Hutt:** Mae Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn darparu gwasanaeth ambiwlans 24 awr i Bowys, a phob rhan arall o Gymru.

Yr oedd y gwasanaeth i Bowys yn cael ei ddarparu'n hanesyddol rhwng hanner nos a 8 a.m. gan staff a leolid yn eu cartref a fyddai'n dychwelyd i'r orsaf ambiwlans os byddai galwad frys. Mae'r ymddiriedolaeth bellach yn gweithredu cynllun peilot sydd yn caniatáu i bump o'r 12 gorsaf ambiwlans ym Mhowys gael eu staffio 24 awr y dydd ac i dair o'r gorsafoedd eraill gadw eu gwasanaeth ar alwad rhwng hanner nos ac 8 a.m. Yn ystod yr oriau hyn yn y nos caeir pedair gorsaf nad ydynt ond yn derbyn ychydig o alwadau ar ôl hanner nos a darperir gwasanaeth o'r gorsafoedd â staff parhaus gerllaw.

Dylai'r trefniant newydd ganiatáu i'r ymddiriedolaeth wella ei hamseroedd ymateb ar gyfer Powys gyfan, gan roi cymorth i gyflawni'r safonau perfformiad anodd newydd a gyflwynasom eleni. Fodd bynnag, cynllun peilot yw hwn a bydd yr ymddiriedolaeth yn adolygu'r perfformiad yn yr ardal i ganfod pa mor llwyddiannus y bu'r cynllun.

## Ailfformiwleiddio Cyffuriau

**C16 Gareth Jones:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar effaith ailfformiwleiddio cyffuriau ar bresgripsiynau? (OAQ2347) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Ffyrdd Iachach o Fyw

**C17 John Griffiths:** Pa gamau pellach y gellid eu cymryd i annog ffyrdd iachach o fyw yng Nghymru? (OAQ2370)

**Jane Hutt:** Mae ffordd o fyw rhywun yn ddylanwad pwysig ar ei iechyd ef neu hi. Effeithir ar y ffyrdd unigol hyn o fyw gan amgylchiadau teuluol, amodau byw a gweithio, a'r amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol-economaidd ehangach.

Mae gweithredu i hybu ffyrdd iach o fyw yn faes allweddol yn fframwaith strategol Gwell Iechyd, Gwell Cymru. Mae amrediad eang o weithgaredd yn digwydd ar lefel leol ledled Cymru. Gweithredir y mentrau canlynol ar hyn o bryd drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

Rheoli Tybaco: Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ymgymryd â rhaglen waith gynhwysfawr i weithredu'r Papur Gwyn ar Dybaco yng Nghymru. Cyflwynwyd y manylion llawn am hynny yn fy araith agoriadol yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar dybaco ar 13 Hydref, a rhoddwyd sylw iddynt yn fy ymateb i WAQ1698VB.

Strategaeth Iechyd Rhywiol: Cymeradwywyd strategaeth ddrafft i hybu iechyd rhywiol gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 24 Tachwedd. Bydd y ddogfen hon yn mynd allan ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn ddiweddarach y mis hwn.

Diogelwch, Safonau a Maethiad Bwyd: Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithio'n agos gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru i hybu bwyta'n iach. Rhoddwyd cydsyniad y Frenhines i'r Ddeddf Safonau Bwyd ym mis Tachwedd. Mae'r gwaith ar sefydlu'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'i Gweithrediaeth yng Nghymru wedi mynd rhagddo'n dda, ac mae'r Asiantaeth i fod i'w sefydlu yn ystod hanner cyntaf 2000.

Strategaeth Alcohol a Chyffuriau: Mae Strategaeth Alcohol a Chyffuriau bresennol Cymru, *Ymlaen Gyda'n Gilydd*, yn cael ei hailffocysu ar hyn o bryd yng ngoleuni strategaeth wrth-gyffuriau newydd y DU. Lansir y strategaeth wedi ei hailffocysu ar gyfer Cymru yn gynnar yn 2000.

Gweithgaredd, Chwaraeon ac Adloniant Corfforol: Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweithio'n agos â Chyngor Chwaraeon Cymru, ac yn darparu cymorth ariannu ar gyfer gweithgareddau craidd y cyngor. Bwriad nod y Cyngor Chwaraeon o 'Chwaraeon i Bawb' yw hybu iechyd da drwy sefydlu cyfleoedd adloniadol a chystadleuol i bawb oddi mewn i gymunedau yng Nghymru. Mae strategaeth gyfredol y cyngor 'Pobl Ifainc yn Gyntaf' yn targedu pobl ifanc ac yn cyflwyno amrediad o gynlluniau er mwyn annog cyfranogiad gan blant. Fel y cyhoeddwyd gan Tom Middlehurst ar 24 Tachwedd, mae ef a minnau wedi gofyn i'r Cyngor Chwaraeon gynnull a chadeirio tasglu o asiantaethau a mudiadau sydd â diddordeb er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer datblygu ffyrdd o fyw iachach a mwy gweithredol, a bydd y Cyngor Chwaraeon yn adrodd yn ôl cyn hir gyda chynigion am aelodaeth y grŵp, ei gylch gorchwyl a chynllun gweithredu amlinellol.

Iechyd Meddwl: Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnull dau grŵp ymgynghorol amlddisgyblaethol i ddatblygu strategaethau iechyd meddwl ar gyfer oedolion ac ar gyfer plant a rhai yn eu harddegau cynnar. Bydd y dogfennau hyn, yr amserlennwyd iddynt fynd gerbron y Cynulliad yn gynnar yn 2000, yn darparu fframwaith strategol ar gyfer hybu iechyd meddwl.

Strategaeth Hybu Iechyd: Bydd y strategaeth hybu iechyd, a â allan ar gyfer ymgynghori yn gynnar yn 2000, yn darparu uwcholwg o'r camau sydd i'w cymryd i hybu ffyrdd iach o fyw. Ar ôl y strategaeth yn ddiweddarach yn 2000 ceir cynllun gweithredu treiglol tair-blynedd ar gyfer hybu iechyd a fydd yn tynnu ar y strategaethau eraill a grybwyllwyd uchod.

## Canser y Fron

**C18 Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i fynd i'r afael â'r sefyllfa fod llai o obaith i ferched yng Nghymru sy'n dioddef o ganser y fron fyw na'r rhai sy'n byw yn Ffrainc, Sweden a'r Swistir? (OAQ2320)

**Jane Hutt:** Yng Nghymru, mae gennym gyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau canser eisoes, fel y'u nodir yn Adroddiad Cameron, sydd yn cael ei weithredu gennym. Mae'r adroddiad hwn yn datgan y dylai gofal canser, yn cynnwys gofal canser y fron, gael ei ddarparu gan dimau amlddisgyblaethol arbenigol sydd yn gweithio yn ôl canllawiau triniaeth cyffredin. Mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylid sefydlu grwpiau proffesiynol, ar gyfer canserau penodol, i Gymru gyfan. Ers 1997, rhoddwyd y gorchwyl i'r Grŵp Cefnogi Gwasanaethau Canser o weithredu argymhellion Adroddiad Cameron. Hyd yn hyn, mewn perthynas â chanser y fron, mae'r grŵp wedi cefnogi Grŵp Canser y Fron Cymru Gyfan ac wedi gweithio gyda hwy i ddiffinio ac adolygu safonau isaf ar gyfer gwasanaethau canser y fron. Mae'r safonau hyn, sydd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, yn cynnwys yr agweddau allweddol o fynediad cyflym, triniaeth a chyfathrebu, gyda gofal sylfaenol a chyda'r claf. Fe'u hailgyhoeddir yn Ebrill 2000.

Darperir arian ychwanegol hefyd er mwyn cau bylchau mewn darpariaeth arbenigol, a fydd yn gymaint â £3.5 miliwn yn 1999-2000. Fel rhan o'n cynllun i wella ansawdd a mynediad i wasanaethau canser, sefydlasom Rwydwaith Profion Canser Cymru Gyfan gyda'r Ymgyrch Ymchwil Canser a Gwasanaethau Geneteg Canser Cymru Gyfan gyda Macmillan Cancer Relief. Mae cynlluniau mewn llaw eisoes i sicrhau y bydd y £9.75 miliwn a ddaw i Gymru o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael ei wario'n ddoeth. Gofynnais i'r awdurdodau iechyd yng Nghymru gydweithio a sicrhau bod cymunedau lleol, y sector gwirfoddol a'r NHS yn cydweithredu i ddatblygu dulliau arloesol o wella gofal canser yng Nghymru.

## Prosiectau Arian Strategaeth Cymru

**C19 Janet Ryder:** Pa gamau a gymerwyd gan Jane Hutt i sicrhau y bydd y prosiectau niferus a sefydlwyd o dan arian strategaeth Cymru yn parhau? (OAQ2344)

**Jane Hutt:** Cymeraf eich bod yn cyfeirio at y cymorth grant i awdurdodau lleol a ddarperir gan y Cynulliad i gefnogi darparu cyfleusterau yn y gymuned i rai ag anableddau dysgu.

Trosglwyddwyd hanner yr arian a oedd ar gael i'r pwrpas hwn i setliad refeniw yr awdurdodau lleol yn 1997-98. Cyfrifoldeb pob awdurdod yw penderfynu ar ei flaenoriaethau gwariant yng ngoleuni'r anghenion a ganfuwyd a'r adnoddau sydd ar gael. Telir y gweddill fel grant uniongyrchol o'r Cynulliad i awdurdodau lleol a rhaid i bob awdurdod roi cyfrif am ei wariant grant gyda thystysgrif archwiliad benodol. Cyfanswm y grantiau uniongyrchol eleni yw £28.15 miliwn.

Mae swyddogion o'r Cynulliad a chynrychiolwyr o lywodraeth leol, o dan adain yr is-grŵp dosbarthu, wedi bod yn ceisio dynodi methodoleg addas er mwyn trosglwyddo gweddill yr adnoddau grant hyn i setliad refeniw awdurdodau lleol. Nid yw'r is-grŵp dosbarthu wedi gallu dynodi methodoleg addas a daeth i'r casgliad yn ddiweddar:

- y dylai'r trefniant grantiau uniongyrchol presennol barhau'n ddinewid hyd ddiwedd 2002-2003; ac
- y dylai swyddogion o'r Cynulliad a chynrychiolwyr o lywodraeth leol adolygu'r sefyllfa eto yn ystod 2002, ochr yn ochr efallai ag ystyriaeth o'r dosbarthu ar adnoddau eraill i'r setliad.

Yr wyf yn ystyried eu casgliadau a chyhoeddaf fy mhenderfyniad ar drefniadau'r cynllun grant cyn gynted ag y bo modd.

### Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu

**C20 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i sefydlu systemau gwybodaeth a chyfathrebu mwy cost-effeithiol o fewn yr NHS yng Nghymru? (OAQ2364)

**Jane Hutt:** O ganlyniad i fuddsoddiad sylweddol gan yr NHS yng Nghymru dros yr wyth neu naw mlynedd diwethaf ynghyd â buddsoddiad a chefnogaeth ganolog sylweddol mae amrediad eang o systemau gwybodaeth a chyfathrebu'n cael eu defnyddio'n rheolaidd yng ngwaith yr NHS drwyddo draw.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r NHS yn parhau i fuddsoddi yn y maes hwn. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ariannol ac effeithiolrwydd gwell, rhaid ymgymryd â buddsoddi yn y dyfodol oddi mewn i fframwaith strategol cytunedig. Yn Ebrill 1999 lansiwyd Gwell Gwybodaeth: Gwell Iechyd. Datblygwyd y fframwaith hwn drwy gydweithrediad agos â rheolwyr a chlinigwyr yr NHS ac mae wedi derbyn cymeradwyaeth eang oherwydd hynny. Mae'n cynnwys amrediad eang o dargedau ac amcanion sydd yn pennu'r dull gweithredu, yr anghenion buddsoddi, a'r systemau a'r gweithgareddau sydd yn angenrheidiol er mwyn rheoli'r cyflenwi ar anghenion gwybodaeth yr NHS yn y dyfodol. Mae rhan o'r strategaeth honno'n mynnu y bydd ymddiriedolaethau'r NHS a'r awdurdodau iechyd yng Nghymru yn datblygu cynlluniau, ar sail amlasiantaethol gydweithredol, er mwyn parhau i ehangu a manteisio ar dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu.

Bydd y cynlluniau datblygu hyn, ynghyd â thri adolygiad yn ymdrin â staffio ar gyfer rheolaeth a thechnoleg gwybodaeth, cyllid a thelegyfathrebu a ddynodwyd yn Gwell Gwybodaeth: Gwell Iechyd yn helpu i gyflawni'r agenda gofal iechyd lawn her sydd gennym ar hyn o bryd. Ymgymerir â'r adolygiadau hyn drwy ymgynghori'n llawn ag NHS Cymru.

### Ffyrdd Dynesu (Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd)

**C21 Owen John Thomas:** Beth yw cost adeiladu'r ffyrdd dynesu sy'n arwain at Ysbyty

Prifysgol Cymru, Caerdydd ac a yw'r gwaith hwn yn cael ei gyllido gan y gyllideb iechyd? (OAQ2342)

**Jane Hutt:** Bydd darparu ffordd newydd i mewn ac allan o ffordd osgoi ddwyreiniol yr A48 i safle Ysbyty Prifysgol Cymru'n costio £7.271 miliwn, ac o hynny ariennir £6.905 miliwn yn ganolog a bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu £366,000 o'i dyraniad dewisol.

## Gwahardd Ymarferwyr Cyffredinol sy'n Tan-gyflawni

**C22 David Melding:** Pa bwerau fydd gan Awdurdodau Iechyd yng Nghymru i wahardd ymarferyddion cyffredinol yr ystyrir eu bod yn tan-gyflawni a pha feini prawf a ddefnyddir ar gyfer y rhai sy'n methu? (OAQ2362)

**Jane Hutt:** Mae'r Adran Iechyd wedi cyhoeddi papur ymgynghorol yn ddiweddar o'r enw 'Supporting Doctors, Protecting Patients', sydd yn rhoi sylw i atal, canfod ac ymdrin â meddygon â pherfformiad gwael yn yr NHS. Un o'r cynigion yw y dylid rhoi pŵer newydd i awdurdodau iechyd i atal ymarferyddion cyffredinol o'u gwaith. Sefydlir grŵp i gynhyrchu papur ymgynghorol yng Nghymru ac i argymell a ddylai awdurdodau iechyd yng Nghymru dderbyn pwerau tebyg.

## Gofal Lliniarol ar gyfer Plant

**C23 Kirsty Williams:** Pa gamau y mae Jane Hutt yn bwriadu eu cymryd i wella gofal lliniarol ar gyfer plant yng Nghymru? (OAQ2308)

**Jane Hutt:** Mae cyllido gofal lliniarol yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau iechyd. Rhaid iddynt asesu anghenion y boblogaeth leol a phrynu gwasanaethau o ansawdd uchel yng ngoleuni'r asesiad hwnnw. Yr oedd cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig wedi pwysleisio y dylai pawb yng Nghymru gael mynediad i wasanaethau gofal lliniarol ac y dylai'r NHS a'r mudiad hosbisau gwirfoddol gydweithio er mwyn cyflawni hynny.

Mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau wedi cyfarwyddo swyddogion i ddechrau trafodaethau gyda golwg ar gynnal adolygiad o'r strategaeth ar gyfer gofal lliniarol. Mae'r trafodaethau hyn mewn cyfnod rhagarweiniol.

## Pris Cyffuriau Generig

**C24 Janet Davies:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar y cynnydd cyflym ym mhris cyffuriau generig? (OAQ2356)

**Jane Hutt:** Pennir pris meddyginiaethau generig drwy gystadlu yn y farchnad. Yn y gorffennol bu modd cael meddyginiaethau generig am brisiau rhesymol drwy hynny, a sicrwydd y byddai'r cyflenwad yn parhau. Fodd bynnag, mae'r prisiau wedi codi'n sydyn eleni, o ganlyniad i broblemau cyflenwi yn rhannol, ac mae'r Adran Iechyd wedi comisiynu adolygiad o'r cyflenwi ar feddyginiaethau i'r NHS, gyda chyfeiriad arbennig at y trefniadau ar gyfer cyffuriau generig. Disgwylir derbyn ei adroddiad erbyn haf 2000 a byddwn yn ystyried oblygiadau ei argymhellion i Gymru, ochr yn ochr ag argymhellion ein grŵp gorchwyl a gorffen ein hunain a fydd yn edrych ar faterion rhagnodi a chyflenwi mewn cyd-destun ehangach.

Un canlyniad i'r codiadau diweddar mewn prisiau yw'r cynnydd sydyn yn nifer y cynhyrchion lle y ceir problem argaeledd ar y pris isaf. Mae gennym gytundeb â'r contractwyr dosbarthu fel y gellir ardystio'r eitemau categori D hyn gyda'r gwneuthurwr neu gyflenwr penodol a'u had-dalu'n unol â hynny. Cynyddodd y nifer o gynhyrchion categori D o tua 20 ar ddechrau'r flwyddyn i tua 180, ac mae'r cynnydd o ganlyniad i hynny yn nifer y

presgripsiynau ardystiedg y mae angen eu prosesu wedi arwain at ôl-groniad o waith prisio presgripsiynau. Byddai'n annerbyniol gohirio taliadau i gontractwyr tan ar ôl y dyddiad talu arferol felly, ar hyn o bryd, fe'u telir o dan fformwla gytunedig ar gyfer amcangyfrif gwerth y presgripsiynau a ddosberthir.

Mae swyddogion o'r Cynulliad yn gweithio gyda'r proffesiynau fferyllol a meddygol yng Nghymru a chyda'r rheolwyr Prisio Presgripsiynau i ddynodi dewisiadau ar gyfer gwella'r system o dalu yn ôl amcangyfrifon, gan sicrhau yr eir yn ôl yn gyflym at brosesu fesul mis, gan ddileu'r ôl-groniad o waith ac ailymgymryd â chyflenwi data rhagnodi a chyllidebol yn amserol i awdurdodau iechyd, grwpiau iechyd lleol a phractisiau ymarferyddion cyffredinol er mwyn sicrhau y cynhelir y taliadau i ymarferwyr ac y gellir rheoli costau rhagnodi'n effeithiol.

### Ymgynghorwyr yr NHS

**C25 Lorraine Barrett:** A yw adran Jane Hutt yn meddu ar ffigurau nifer y llawdriniaethau neu oriau y mae ymgynghorwyr yr NHS wedi'u contractio i'w gwneud ac union nifer y llawdriniaethau a wneir ganddynt o ran llawfeddygaeth orthopedig a llawfeddygaeth ddewisol? (OAQ2372)

**Jane Hutt:** Bydd angen ychydig o amser i gael y wybodaeth a geisir ond fe'i hanfonir ymlaen cyn gynted ag y bydd ar gael.

### Canolfan Ymadfer Talygarn

**C26 Jane Davidson:** A yw Jane Hutt mewn sefyllfa i gyhoeddi manylion y cynlluniau ar gyfer dyfodol Canolfan Ymadfer Talygarn? (OAQ2368)

**Jane Hutt:** Mae cynnig Awdurdod Iechyd Bro Taf i drosglwyddo gwasanaethau yn Nhalygarn i Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a atgyfeiriwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ôl ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd, yn cael ei ystyried yn ofalus a gobeithiaf gyhoeddi penderfyniad cyn hir.

### Wardiau Aml-ryw

**C27 David Davies:** A wnaiff Jane Hutt ymrwymo i ddod â wardiau aml-ryw mewn ysbytai i ben? (OAQ2317)

**Jane Hutt:** Codwyd y cwestiwn hwn gennych o'r blaen ar 16 Mehefin (OAQ132) ac ar 3 Tachwedd 1999 (OAQ1786VB). Nid yw'r polisi ar y mater hwn wedi newid yn y cyfamser a cheir cofnod o'r ateb a roddwyd eisoes yn Nghofnod y Trafodion. Gan ailadrodd y datganiad blaenorol hwnnw, cadarnhaf ei bod yn bwysig trin cleifion mewn ysbytai gyda phreifatrwydd ac urddas bob amser. Mae'r rhan fwyaf o'r ysbytai yng Nghymru'n gallu darparu lleoedd aros gwahanedig derbyniol oddi mewn i wardiau aml-ryw sydd yn sensitif i anghenion cleifion.

### Y Gyllideb Iechyd

**C28 Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar y diffyg yn y gyllideb iechyd yn y flwyddyn gyfredol a'r ffaith bod y gwrthbleidiau wedi atgyfeirio'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf? (OAQ2307)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd mae'r awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau'n proffwydo diffyg o oddeutu £29 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon er gwaethaf y setliad ariannol hael i'r NHS eleni. Dangosir manylion rhagolygon yr ymddiriedolaethau a'r awdurdodau

iechyd unigol o'u gwargedau/diffygion yn 1999-2000 fel yr oeddent ddiwedd Medi yn y tabl a atodir.

Yn y cyfarfod i ystyried y cynigion cyllideb manwl ar 24 Tachwedd, croesawodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr arian ychwanegol a sicrheais yn Rownd Cynllunio'r Gyllideb. Mae hyn yn cwrdd â llawer o flaenoriaethau'r Pwyllgor fel y'u cyflwynwyd i mi gan y Cadeirydd yn gynharach eleni ac yn cynnwys arian pellach ar gyfer mudiadau gwirfoddol; y Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol; cefnogaeth ganolog i wasanaethau plant; rheoleiddio gofal cymdeithasol a datblygu Comisiynydd Plant. Ar gyfer yr NHS, sicrheais £14 miliwn o arian newydd ar gyfer cyfalaf ar ben cynnydd cyffredinol o £181 miliwn neu 7 y cant a gallais ddarparu cynnydd o 6 y cant i awdurdodau iechyd yn eu dyraniadau dewisol a gwarchodedig ar gyfer 2000-01.

**NHS CYMRU - SEFYLLFA ARIANNOL AR 30 MEDI 1999**

| | **(1)** | **(2)** | | **(3)** |
|---|---|---|---|---|
| **Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd** | **Incwm a Gwariant Gwarged(diffyg) Archwiliedig 1998-99 £000** | **Incwm a Gwariant Gwarged(diffyg) a Ragwelir 1999-00 £000** | | **Incwm a Gwariant Gwarged(diffyg) fel % o'r trosiant 1999-00 £000** |
| | | | | |
| Cymuned a Dosbarth Caerdydd | (205) | (700) | | (0.9) |
| Gogledd Morgannwg **(4)** | 2 | (600) | | (0.8) |
| Pontypridd a'r Rhondda | (47) | 0 | | - |
| Ysbyty Prifysgol Cymru ac Ysbyty Llandochau | (4,295) | (5,400) | | (2.0) |
| Velindre | 127 | 0 | | - |
| Awdurdod Iechyd Bro Taf | (291) | (1,000) | | (0.2) |
| **Cyfanswm Bro Taf** | **(4,709)** | **(7,700)** | | **(1.3)** |
| | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | (31) | (6,646) | (1,433) | (7.6) |
| Ceredigion | 19 | (1,650) | 0 | (5.7) |
| Sir Benfro a Derwen | (529) | (4,061) | 0 | (5.4) |
| Powys | 494 | (1,710) | 66 | (3.6) |
| Awdurdod Iechyd Dyfed Powys | (11,492) | (847) | (13,547) | (0.3) |
| **Cyfanswm Dyfed Powys (7)** | **(11,539)** | **(14,914)** | | **(4.0)** |
| | | | | |
| Gofal Iechyd Gwent | (351) | (963) | | (0.4) |
| Awdurdod Iechyd Gwent | (72) | (172) | | 0 |
| **Cyfanswm Gwent** | **(423)** | **(1,135)** | | **(0.3)** |
| | | | | |
| Bro Morgannwg **(4)** | 13 | (500) | | (0.3) |
| Abertawe **(4)(5)** | (2,682) | (2,260) | | (1.2) |
| Iechyd Morgannwg Health | 721 | 283 | | 0 |
| **Cyfanswm Morgannwg** | **(1,948)** | **(2,477)** | | **(0.6)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Conwy a Sir Ddinbych **(4)(6)** | - | (2,000) | (1.7) |
| Gogledd Ddwyrain Cymru **(6)** | (2,145) | (4,400) | (4.0) |
| Gogledd Orllewin Cymru **(6)** | - | (1,750) | (1.5) |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 1 | (650) | (1.1) |
| Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru **(4)** | 306 | 5,706 | 1.1 |
| **Cyfanswm Gogledd Cymru** | **(1,838)** | **(3,094)** | **(0.6)** |
| **CYFANSWM Y DIFFYG** | **(20,457)** | **(29,320)** | **(1.3)** |

**Nodiadau Eglurhaol**

**(1)** Mae'r golofn ar yr ochr chwith yn dangos y gwarged (neu'r diffyg) fel y'i hadroddwyd yn y cyfrifon blynyddol archwiliedig am 1998-99 ar gyfer pob corff iechyd. Mae'r diffyg cyffredinol o £20.5 miliwn yn cynnwys colledion ymarferyddion cyffredinol â chyllideb o £3.8 miliwn. Nid yw'r ffigurau am 1998-99 yn cynnwys effaith Safon Adrodd Ariannol 11 (Lleihad asedau sefydlog), sydd yn ychwanegu cynnydd o £170 miliwn at y diffyg yn achos yr ymddiriedolaethau (ond dim cynnydd yn achos awdurdodau iechyd).

**(2)** Mae'r golofn ganol yn dangos y gwarged (neu'r diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn yn ôl y rhagolygon cyfredol ar gyfer 1999-2000. Darperir y rhagolygon hyn yn fisol gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd. Dangosir dyddiad effeithiol y rhagolygon ar ben y tabl.

**(3)** Mae'r golofn ar y dde yn dangos y gwarged/(diffyg) a ragwelir yng ngholofn (2) wedi ei fynegi ar ffurf canran o drosiant 1999-2000. Mae'r ffigurau a ddangosir fel is-gyfansymiau ar gyfer pob rhanbarth wedi eu mynegi fel canran o drosiant yr awdurdod iechyd. Mynegir y ffigur ar waelod y golofn ar ffurf canran o gyfanswm trosiant yr awdurdodau iechyd.

**(4)** Mae'r rhagolygon a gyflwynwyd gan y cyrff iechyd hyn ym mis Medi wedi eu diwygio i adlewyrchu datblygiadau diweddar mewn Cytundebau Tymor Hir ac amcangyfrifon mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Amser Gweithio Ewropeaidd.

**(5)** Mae'r ffigurau am 1998-99 a ddangosir yn ymwneud â'r cyn-ymddiriedolaethau, Glan-y-Môr, Abertawe ac Ysbyty Treforys.

**(6)** Mae'r ffigur cyfansymiol am 1998-99 a ddangosir yn ymwneud â'r cyn-ymddiriedolaethau, Glan Clwyd, Wrecsam Maelor, Ysbytai Gwynedd, Gofal Cymunedol Gwynedd a Gofal Cymunedol Clwydian**.**

**(7)** Dangosir y ffigurau am 1999-2000 ar gyfer Dyfed Powys o dan ddwy fethodoleg wahanol—mae'r ffigurau ar y dde fel y'u hadroddwyd gan bob corff iechyd ac yn rhagdybio incwm achlysurol i'r ymddiriedolaethau gyda'r diffyg a gofnodwyd yn llyfrau'r awdurdod iechyd. Mae'r ffigurau ar y chwith yn dangos y sefyllfa os trinnir yr incwm achlysurol fel benthyciadau i'r ymddiriedolaethau. Mae cyfanswm sefyllfa Dyfed Powys yn aros yr un peth ni waeth pa ddull a ddefnyddir.

**Llawdriniaethau ar y Galon a'r Arennau**

**C29 Owen John Thomas:** Faint o gleifion sy'n aros am lawdriniaethau ar y galon a'r arennau yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd a pha gynlluniau sydd gan Jane Hutt i fynd i'r afael â'r broblem hon yn y tymor hir? (OAQ2343)

**Jane Hutt:** Ar 30 Medi 1999, adroddodd awdurdodau iechyd Cymru fod 24 o gleifion yn disgwyl am ymgynghoriad claf allanol cyntaf a 256 o gleifion yn disgwyl cael eu derbyn yn gleifion mewnol neu fel achosion dydd ar gyfer llawdriniaethau ar y galon yn ymddiriedolaeth Ysbyty Prifysgol Cymru ac Ysbyty Llandochau.

Cynhwysir data ar gleifion sydd yn disgwyl llawdriniaeth ar yr arennau o fewn y rhestrau cyfansymiol ar gyfer yr arbenigaeth berthnasol ac ni chesglir hwy ar wahân gan y Cynulliad.

Mae Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cwblhau adolygiad yn ddiweddar ar wasanaethau'r galon ledled Cymru ac wedi cyflwyno ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'r Cynulliad. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ond yr oeddwn yn falch iawn o allu cynnwys £1.5 miliwn i helpu i liniaru'r pwysau difrifol ar wasanaethau'r galon i oedolion yn fy nghynigion gwario drafft ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae hynny ar ben y mesurau tymor byr a drafodwyd gan y Comisiwn ag Ysbyty Hammersmith yn Llundain i drin 133 o gleifion o dde Cymru a fu'n aros am fwy na blwyddyn am driniaeth.

Yn ogystal â hynny, bydd y comisiwn yn dechrau ynghynt ar ei adolygiad arfaethedig ar y gwasanaeth trawsblannu arennau yn Ysbyty Prifysgol Cymru. Mae hyn yn digwydd yng ngoleuni pryderon a godwyd ynghylch y gwasanaeth presennol gan y Gymdeithas Cleifion Arennol. Ymgymerir â'r adolygiad hwn er mwyn helpu awdurdodau iechyd pan fyddant yn comisiynu'r gwasanaeth yn y dyfodol a bydd yn ystyried y cyfleusterau sydd ar gael yn yr ysbyty, eu cyfluniad, eu hansawdd a'u llwyddiant yn y maes hwn. Dylai'r adolygiad gael ei gwblhau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

### Meddygon Ifanc

**C30 Jocelyn Davies:** Beth yw barn Jane Hutt ynghylch nifer presennol yr oriau y mae meddygon ifanc yn eu gweithio? (OAQ2346)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymwybodol nad yw'r holl feddygon ifanc yn cydymffurfio â'r cyfyngiad cyfredol o weithio 56 awr yr wythnos ar gyfartaledd fel yr argymhellir gan y Fargen Newydd i Feddygon Ifainc. Mae'r Cynulliad wedi penodi meddyg ifanc i ddynodi sut y gellir lleihau oriau gwaith meddygon ac i roi hwb ychwanegol i weithredu'r Fargen Newydd yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

### Cyrsiau Ysgrifenyddol a TG trwy Gyfrwng y Gymraeg

**C5 Janet Davies:** Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 i gynyddu nifer y cyrsiau ysgrifenyddol a TG sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg? (OAQ2335)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Mae'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach wedi gofyn i sefydliadau fod yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ac fe'u hatgoffwyd o'r flaenoriaeth a roddwn ar sicrhau y caiff strategaethau eu sefydlu a'u datblygu sydd yn gwella'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau dwyieithog.

Rhoddir cyllid ar gyfradd uwch na'r un safonol ar gyfer cyrsiau ysgrifenyddol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu o dan fethodoleg ariannu'r Cyngor, sydd hefyd yn rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer cyrsiau a gaiff eu dysgu a'u hasesu'n ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

A hynny'n gefndir, mae sefydliadau addysg bellach yn gyrff annibynnol, awtonomaidd sydd yn gyfrifol am benderfynu pa gyrsiau a ddarparant. Gwneir penderfyniadau o'r fath mewn ymateb i alw gwirioneddol neu ragweledig a dylent gael eu goleuo drwy ymchwil yn y farchnad.

### Canolfan y Mileniwm

**C6 Alun Pugh:** A oes gan Tom Middlehurst gynlluniau i wneud datganiad ar hynt Canolfan y Mileniwm? (OAQ2404)

**Tom Middlehurst:** Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn gwneud cynnydd da wrth gwblhau'r trefniadau ar gyfer gosod contractau, ac mae'n disgwyl dechrau gweithio ar y safle yn y gwanwyn.

### Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**C7 Huw Lewis:** Beth fydd rôl y Cynulliad mewn prynu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y sector addysg bellach? (OAQ2394JS) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Addysg Gymraeg Ôl-16

**C8 Geraint Davies:** Pa gynlluniau sydd ar droed i ostwng nifer y myfyrwyr sy'n gadael addysg Gymraeg ar ôl 16 oed? (OAQ2384)

**Tom Middlehurst:** Gwneir penderfyniadau ynghylch y cyrsiau a ddarperir gan sefydliadau unigol. Mae Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru yn annog mwy o ddarpariaeth o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a rhai dwyieithog drwy wella adnoddau, comisiynu ymchwil, a darparu cyngor a chyfarwyddyd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o fentrau i hybu a hwyluso addysg ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhlith y rhain mae:

- cefnogaeth i strategaeth Fforwm ar gyfer datblygu addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog;
- dyrannu arian drwy'r fethodoleg ariannu rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r costau ychwanegol sydd yn gysylltiedig â rhaglenni a ddysgir ac a asesir yn ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cefnogaeth i sefydlu canolfan datblygu dwyieithrwydd;
- ariannu ar gyfer y trydydd cyfnod mewn prosiect i ddatblygu deunyddiau dwyieithog ar gyfer cyrsiau galwedigaethol, a ledaenir drwy wefan y Coleg Digidol ar y rhyngrwyd
- comisiynu ymchwil i'r dirywiad ymddangosiadol mewn gweithgaredd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn perthynas ag addysg uwch, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n ariannu, yn cynnal ac yn datblygu'r sector addysg uwch cost-effeithiol ac uchel ei ansawdd yng Nghymru, gan roi ystyriaeth i ddymuniadau'r Cynulliad. Mae polisi'r cyngor ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn deillio o drafodion ei grŵp darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a adroddodd yn 1995.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gweithredu er cefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch ers sawl blwyddyn. 1998-99 oedd y flwyddyn derfynol mewn rhaglen bum-mlynedd, lle y dyrannwyd cyllid gan y cyngor o dan ei gronfa datblygu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. At ei gilydd, mae dros £0.5 miliwn o gyllid wedi'i ddarparu o dan y cynllun hwn. Rhoddodd y gronfa gymorth i sefydliadau wrth ymestyn amrediad y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg oedd ar gael. Comisiynwyd

ymgynghorydd gan y cyngor i ymgymryd ag adolygiad o'r gronfa a'i heffaith. Cyflwynwyd adroddiad yr ymgynghorydd i'r cyngor, sydd yn ystyried y ffordd ymlaen.

Er mwyn parhau â'r gefnogaeth i waith datblygu ar y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch, mae cyllid sylweddol wedi'i gynnwys yng ngrantiau craidd y sefydliadau. Ar gyfer 1999-2000 mae hyn tua £1.26 miliwn. Yn ogystal â hynny, mae cyllid premiwm i gefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael gan y cyngor ers 1996-97, ac amcangyfrifir mai'r gwariant ar hynny ar gyfer 1999-2000 yw £1.3 miliwn.

Mae sefydliadau addysg bellach ac uwch yn cynhyrchu cynlluniau iaith Gymraeg, lle y byddant yn datgan eu cynlluniau ar gyfer darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Archwilir y cynlluniau hyn yn gyntaf gan y cyngor a'u cyflwyno wedyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w cymeradwyo.

### Addysg a Hyfforddiant (Cymunedau Difreintiedig)

**C9 John Griffiths:** Beth yw strategaeth Tom Middlehurst ar gyfer hyrwyddo addysg a hyfforddiant ymysg cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru? (OAQ2398J)

**Tom Middlehurst:** Mae materion fel cyfle cyfartal a hybu cynhwysiant cymdeithasol yn rhan allweddol o'r strategaethau a gaiff eu mabwysiadu a'u dilyn gan y Cynulliad. Mae codi safonau a chyrhaeddiad, a chynyddu cyfranogiad wrth graidd polisïau addysg a hyfforddiant y Cynulliad er mwyn sicrhau bod pob person ifanc a phob oedolyn yn gallu cyflawni ei botensial.

Caiff hyn ei gyflenwi a'i gefnogi gan raglenni a dargedwyd fel y gronfa bartneriaeth plant a phobl ifanc sydd ar gael i bob awdurdod lleol ledled Cymru mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill. Y nod yw cyfoethogi bywydau pobl ifanc, datblygu dulliau o godi cyflawniadau addysgol pobl ifanc a helpu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol.

Mae ein menter mynediad ieuenctid yn rhaglen bwysig arall. Mae'n helpu i ailgysylltu rhai 14 i 17 oed sydd, neu sydd yn debygol o gael eu hallgáu, ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth addas drwy strategaethau partneriaeth a ddatblygir rhwng y Cynghorau Hyfforddi a Menter, awdurdodau lleol a chwaraewyr allweddol eraill. Hybir hyn ymhellach drwy'r rhaglen Gateway i ieuenctid, a fydd yn sicrhau bod pob un y mae arno angen cefnogaeth yn cael ei arwain ar hyd y llwybr datblygu gyrfa mwyaf priodol er mwyn cyflawni ei botensial.

Yr ydym hefyd yn ariannu tair *foyer* newydd yng Nghymru, a fydd yn cyfuno tai ar gyfer pobl ifanc difreintiedig, hyfforddiant mewn medrau galwedigaethol a byw a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.

Yn ogystal â hynny, mae ein rhaglen pobl mewn cymunedau, sydd yn canolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn hybu atebion ymarferol i broblemau lleol a gaiff eu harwain a'u gyrru gan y gymuned, gan gynnwys gwell cyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant, a'r un mor bwysig, gwell mynediad i addysg a hyfforddiant.

Mae rhaglen Bargen Newydd y Llywodraeth a'r fenter rhanbarthau cyflogaeth yn helpu pobl ddi-waith i oresgyn y rhwystrau sydd yn eu hatal rhag cael eu cyflogi. Mae'r Cynulliad yn awyddus i gynnwys ei raglenni ei hun gyda'r Fargen Newydd er mwyn creu gwerth ac effaith ychwanegol.

Er mwyn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i ehangu mynediad i addysg uwch, cyflawnwyd nifer o welliannau yn y trefniadau cefnogi myfyrwyr. Yn benodol: rhyddhad ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a ddaw'n ddi-waith ar ôl dechrau eu cyrsiau; ildiad ffioedd ar gyfer

myfyrwyr rhan-amser ar fudd-daliadau neu incwm isel; a chymorth i fyfyrwyr sydd yn dod i addysg uwch o ofal, ac ar gyfer myfyrwyr aeddfed, drwy gronfeydd mynediad. Ar ben hynny, o hydref 2000 bydd hawl gan fyfyrwyr addysg uwch rhan-amser presennol a newydd i gael benthyciad i'w helpu gyda threuliau cwrs, fel llyfrau ac offer.

**Ariannu Amgueddfeydd**

**C10 Nick Bourne:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ynghylch ariannu amgueddfeydd yng Nghymru? (OAQ2312)

**Tom Middlehurst:** Nodir ein cynigion ar gyfer ariannu'r sector amgueddfeydd yn natganiad cyllideb yr Ysgrifennydd Cyllid. Maent yn cynnwys cynlluniau i gyflwyno mynediad am ddim i'r Amgueddfa Genedlaethol i bob plentyn ysgol.

**Dysgu Cymraeg yn y Gweithle**

**C11 Ieuan Wyn Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i hyrwyddo cyfleusterau ar gyfer dysgu Cymraeg yn y gweithle? (OAQ2406)

**Tom Middlehurst:** Rhaid i bob cyngor hyfforddi a menter yng Nghymru gael cynllun iaith Gymraeg a gymeradwyir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Fel rhan o'u contract â'r Cynulliad, mae'n ofynnol i gynghorau hyfforddi a menter sicrhau bod hyfforddiant galwedigaethol a geisir drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddarparu lle y bo hynny'n briodol ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r cynghorau hyfforddi a menter yn mynnu bod eu darparwyr, eu contractwyr a'u his-gontractwyr yn cydymffurfio â'u cynlluniau iaith Gymraeg fel y bo'n briodol.

I gyflenwi hyn, yr ydym am sicrhau y ceir cyfleoedd i bobl ennill cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr ydym yn ariannu prosiect mawr i sefydlu trefniadau i asesu a dyfarnu CGCau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae hefyd yn canolbwyntio ar hybu darpariaeth, cyflenwad a derbyniad CGCau.

Cydlynir y prosiect gan Antur Teifi ac mae'n cynnwys amrediad eang o ddarparwyr hyfforddiant, cynghorau hyfforddi a menter, darparwyr addysg bellach, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

**Prifysgol Morgannwg (Adfywio'r Cymoedd)**

**C12 Geraint Davies:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ynghylch cyfraniad Prifysgol Morgannwg at adfywio'r Cymoedd? (OAQ2381)

**Tom Middlehurst:** Bu rôl Prifysgol Morgannwg yn adfywiad economaidd a chymdeithasol y Cymoedd ac, yn wir, yn y dywysogaeth, yn sylweddol. Yn y cyd-destun hwn, mae gweithgareddau allweddol y brifysgol yn cynnwys y canlynol:

- Derbyn symiau sylweddol o arian ar gyfer ymchwil a datblygu a gweithgareddau hyfforddi ac ymgynghori; derbyniwyd dros £7 miliwn yn 1998. Anodd yw datgrynhoi'r gweithgaredd hwn i lefel y 'Cwm' ond casgliad astudiaeth gan Grant Thornton oedd bod effaith economaidd gyffredinol y brifysgol ar fwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf tua £37.5 miliwn y flwyddyn a £25 y flwyddyn ar Bontypridd a Threfforest.

- Drwy ei his-gwmni, UGCS Limited, mae'r brifysgol yn darparu amrediad helaeth o gyrsiau byrion mewn rheoli a datblygu proffesiynol. Yn 1998, hyfforddwyd dros 6,000 o weithwyr mewn oed ar oddeutu 750 o gyrsiau hyfforddi a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag anghenion gweithwyr a gweithleoedd.

- Yn 1998, o blith y 93 o sefydliadau academaidd yn y DU sydd yn rhedeg cynllun cwmnïau dysgu trosglwyddo technoleg flaenaf y Llywodraeth, gan y brifysgol hon yr oedd y nifer fwyaf o gynlluniau ar waith. Yn y rhaglenni cynllun cwmnïau dysgu hyn, mae cwmnïau'n paru ag adrannau prifysgol i'w helpu i ddatblygu neu hyrwyddo eu cynhyrchion ac ar hyn o bryd mae'r brifysgol yn gweithio gyda 15 cwmni yng Nghymru, a naw ohonynt yn y Cymoedd, e.e. Blackwood Engineering Limited (Aber-big), Mountway Limited (Tredegar), Riverside Plastics Limited (Trefforest), Tectonic International (Merthyr Tudful).

- Mae'r brifysgol yn rheoli rhaglen gyswllt addysg uwch ar ran prifysgolion Cymru. Mae hwn yn brosiect unigryw sydd yn golygu bod prifysgolion yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd i roi mynediad fforddiadwy i fentrau bach a chanolig eu maint yn ardaloedd Amcan 2 a 5B yng Nghymru at ddatblygiadau newydd, cefnogaeth dechnegol, adnoddau ac arbenigaeth prifysgolion.

- Sefydliad Menter Cymru ym Mhrifysgol Morgannwg yw'r uned ymchwil a datblygu menter fwyaf yng Nghymru. Mae ar fin ennill mwy na £1 miliwn mewn grantiau ymchwil a datblygu yn chwarter olaf 1999. Mae ei waith yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu mentrau bach a chanolig lleol, ac enghraifft o hynny yw menter Fast Growth Fifty 1999 yng Nghymru, a ariennir gan y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd ac sydd yn rhedeg mewn partneriaeth â *The Western Mail.* Nod y prosiect hwn yw sefydlu rhwydwaith o fusnesau twf cyflym yng Nghymru. Bydd yn creu clwstwr rhanbarthol penodol o'r busnesau mwyaf entrepreneuraidd ac arloesol yng Nghymru, er mwyn rhannu profiad a datblygu cysylltiadau masnach a busnes cydweithredol newydd gyda'i gilydd ar draws sawl sector, ardal a maes angen rheolaeth. Mae'r garfan hon o fusnesau, sydd yn cynnwys Interlink Premier Network Limited (Pontypridd), Nant Ddu Lodge Hotel (Merthyr Tudful) a Williams Medical Supplies (Rhymni), yn gweithredu hefyd fel modelau rolau ar gyfer busnesau bychain eraill ac ynddynt botensial i dyfu yng Nghymru.

- Yn 1998, penodwyd y Ganolfan Peirianneg Gynhyrchu Electronig ym Mhrifysgol Morgannwg yn un o'r 26 nod trosglwyddo technoleg ar gyfer rhaglen weithredu Defnyddiwr Cyntaf y Comisiwn Ewropeaidd. Nod y rhaglen hon yw hybu trosglwyddo technolegau microelectroneg i gwmnïau. Bu'r Ganolfan yn llwyddiannus iawn, gan weithio â dros 50 o gwmnïau, a sawl un ohonynt yn y Cymoedd, e.e. Jones Chromotography (Hengoed), NuAire Limited (Caerffili), Rack International UK Limited (Merthyr Tudful), Vector Technology Limited (Abertileri).

- Mae'r brifysgol yn parhau i weithio er mwyn ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch yn y Cymoedd. Er enghraifft, mae'n gweithio gydag ysgolion—mae dros 50 o ysgolion yn ne Cymru, yn y Cymoedd yn bennaf, wedi arwyddo cytundebau Compact â'r brifysgol—a chyda bron 2,000 o ddysgwyr mewn oed yn y gymuned drwy Brifysgol Gymunedol y Cymoedd a mentrau cysylltiedig.

- Mae gan y brifysgol rwydwaith masnachfreintiau addysg bellach helaeth yng Nghymru, sydd wedi llwyddo i sicrhau bod addysg uwch ar gael i fyfyrwyr mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, gan ddod â budd i'r gymuned a'r diwydiannau lleol yn ogystal â datblygu potensial yr unigolion dan sylw. Bellach ceir 21 sefydliad addysg bellach, ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys y Cymoedd, sydd yn cynnig dyfarniadau Prifysgol Morgannwg ac yr oedd bron 2,900 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru yn 1998-99.

### Cyngor Addysg a Hyfforddiant i Gymru

**C13 Mick Bates:** A all Tom Middlehurst amcangyfrif y gost i'r Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant i Gymru arfaethedig o ysgwyddo rôl ariannu Cyngor Ariannu Addysg Bellach

Cymru, a rôl rheoli a chyflogi'r cynghorau hyfforddiant a menter? (OAQ2402)

**Tom Middlehurst:** Er bod amcangyfrifon dros dro wedi eu gwneud, maent yn agored iawn i'w diwygio. Asesir oblygiadau ariannol yr holl gynigion yng nghynllun gweithredu Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant fel rhan o astudiaeth gan ymgynghoriaeth, a gomisiynir cyn hir, er mwyn canfod lefel debygol yr arbedion a geir o ganlyniad i'r ad-drefnu yn y tymor canolig.

**Sector Gwirfoddol (Yr Iaith Gymraeg)**

**C14 Elin Jones:** A wnaiff Tom Middlehurst wneud datganiad ar gyfraniad y sector gwirfoddol at dwf a datblygiad yr iaith Gymraeg? (OAQ2392)

**Tom Middlehurst:** Talaf deyrnged i'r cyfraniad anfesuradwy a wnaethpwyd gan fudiadau gwirfoddol i achos yr iaith o ddechrau'r ganrif hon hyd at ei diwedd.

Cyfranogiad niferoedd mawr o bobl yng ngweithgareddau'r mudiadau gwirfoddol a'r cyrff anstatudol hynny sydd â'r cysylltiad agosaf â'r iaith, yn awr ac yn y gorffennol, yw un o'r profion mwyaf cadarnhaol bod pobl Cymru am sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg. Mae'r mudiadau'n rhy niferus i enwi pob un, ond ymysg y rhai mwyaf amlwg y mae'r Eisteddfod Genedlaethol a'r llu o eisteddfodau lleol; cymdeithasau sydd yn gysylltiedig â chapeli ac eglwysi; Urdd Gobaith Cymru a'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'r sector gwirfoddol ehangach wedi cymryd camau breision tuag at gyflenwi mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a nifer o fudiadau gwirfoddol eraill wedi dewis gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg, yn gyfochrog â datblygiadau yn y sector cyhoeddus.

Mae cymorth grant ar gael ers blynyddoedd lawer i weithgareddau gan fudiadau gwirfoddol sydd yn cefnogi'r iaith Gymraeg, ac fe'i gweinyddir ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

**Dosbarthiadau Chwech**

**C15 William Graham:** Pa fesurau fydd mewn grym i ddiogelu'r arian arfaethedig i ddosbarthiadau chwech, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig, a'u perthynas â'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn dosbarthiadau chwech? (OAQ2396)

**Tom Middlehurst:** Credaf y bydd ein cynigion presennol yn cryfhau rôl dosbarthiadau chwech, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a bydd unrhyw newidiadau yn y trefniadau ar gyfer ariannu dosbarthiadau chwech yn amodol ar ymgynghori llawn â'r cyrff cysylltiedig.

Yn ystod ein trafodion rhoesom ystyriaeth arbennig i faterion gwledigrwydd a darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriadwn sicrhau y bydd amrediad eang o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 berthnasol ac uchel ei hansawdd ar gael i bobl Cymru, lle bynnag y maent yn byw a beth bynnag yw eu dewis iaith.

Bydd cynllun gweithredu'r Grŵp Addysg a Hyfforddiant yn sicrhau yr ymgymerir â chynllunio a datblygu ar y lefel leol gan Gonsortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol—partneriaeth o ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 lleol yn cynnwys awdurdodau addysg lleol a dosbarthiadau chwech—a fydd yn cymryd camau cadarnhaol i ymdrin â materion gwledigrwydd ac i hybu lleoliadau anffurfiol ar gyfer dysgu a rhaglenni allanol fel y rhyngrwyd a chysylltiadau fideo, er mwyn darparu mwy o ddewis i fyfyrwyr.

Mae'r cynllun gweithredu'n argymell y dylid cyfoethogi ac ymestyn y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ac mewn sefydliadau addysg bellach ac y dylai fod yn ddyletswydd ar y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol i sicrhau hynny. Bydd y Consortia Cymunedol yn darparu cyrsiau drwy'r Gymraeg yn eu hardaloedd, mewn partneriaeth, yn unol ag anghenion eu cymunedau lleol.

### Strategaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Addysg Gymraeg)

**C16 Gareth Jones:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar strategaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i wella dilyniant yn addysg cyfrwng Cymraeg? (OAQ2376) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwasanaethau Hyfforddiant Galwedigaethol Rhanbarthol Cynghorau Hyfforddiant a Menter

**C17 Nick Bourne:** A fydd Tom Middlehurst yn cyhoeddi cynigion i gynnal y gwasanaethau hyfforddiant galwedigaethol rhanbarthol a ddarperir gan y cynghorau menter a busnes? (OAQ2313)

**Tom Middlehurst:** Mae Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y Cynulliad yn ystyried amrediad o faterion yn ymwneud â sefydlu'r Cyngor Cenedlaethol arfaethedig dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru, gan gynnwys strwythur rhanbarthau priodol ar gyfer y Cyngor, a threfniadau i sicrhau y bydd gwasanaethau a ddarperir drwy'r cynghorau hyfforddi a menter yn parhau i fod ar gael.

Ystyriaf argymhellion y Pwyllgor yn ofalus cyn penderfynu'n derfynol ar y trefniadau ar gyfer cyflenwi hyfforddiant yn seiliedig ar waith a swyddogaethau cysylltiedig.

### Fformwla Ariannu Unigol Addysg Ôl-16 (Dosbarthiadau Chwech Ysgolion)

**C18 Jonathan Morgan:** Sut y gall fformwla ariannu unigol ar gyfer addysg ôl-16 ystyried y gwerth ychwanegol a gynigir eisoes gan ddosbarthiadau chwech mewn ysgolion? (OAQ2380)

**Tom Middlehurst:** Mae cynllun gweithredu Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn argymell y dylai'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant sefydlu amrediad o astudiaethau technegol drwy gydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff perthnasol eraill, i ystyried y dull mwyaf boddhaol o gymhwyso'r methodolegau sydd yn sylfaen i'r gwahanol gyfundrefnau ariannu ôl-16. Bydd astudiaethau o'r fath yn ystyried pob agwedd ar addysg ôl-16, pa un a'i darperir hi mewn dosbarth chwech mewn ysgol neu mewn sefydliad addysg bellach.

Gallaf eich sicrhau na fydd unrhyw newid yn y modd yr ariennir y ddarpariaeth heb ystyriaeth ofalus ac ymgynghorir â phawb sydd â diddordeb yn y maes hwn, er mwyn sicrhau y diogelir elfennau arbennig y gwahanol gyfundrefnau.

### Theatr (Ardaloedd Gwledig)

**C19 Kirsty Williams:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i sicrhau bod pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gwaith theatr a dysgu amdano? (OAQ2311)

**Tom Middlehurst:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru eisoes wedi cyhoeddi cynigion newydd ar gyfer theatr i bobl ifanc yn rhan o'i strategaeth ddrama. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu dyhead y cyngor i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc o bob cefndir, ac ym mhob ardal yng Nghymru, fwynhau'r celfyddydau.

Mae'r cyngor wedi dyfarnu masnachfraint i gwmni'r Arad Goch i wasanaethu ardal canolbarth Cymru gyda chynyrchiadau i bobl ifanc. Yn ogystal â hynny, mae'r cyngor yn cefnogi Theatr Brycheiniog, Theatr Hafren a Chanolfan Gelfyddydau Glannau Gwy, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Mae'r cyngor hefyd yn rhoi cymorth i fudiadau ambarél, fel Cymdeithas Ddrama Cymru, sydd yn cynorthwyo theatr amatur yng nghefn gwlad Cymru.

## Cyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru

**C20 Glyn Davies:** A wnaiff Tom Middlehurst ymweld â chyngor hyfforddi a menter canolbarth Cymru i drafod sut y gall ddatblygu ei rôl strategol wrth ddatblygu'r rhanbarth? (OAQ2405)

**Tom Middlehurst:** Nid oes gennyf unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ymweld â Chyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru, ond bydd swyddogion yn cyfarfod â Phrif Weithredwr y cyngor hyfforddi a menter cyn hir i drafod y rôl y gallai'r cyngor hyfforddi a menter hwn a rhai eraill ei chwarae, ochr yn ochr â chyrff addysg bellach ac uwch, wrth fwrw ymlaen â'r agweddau datblygu adnoddau dynol ar y strategaeth ddatblygu genedlaethol, tra'n disgwyl sefydlu Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru.

## Cyngor Celfyddydau Cymru (Theatr Gwent)

**C21 David Davies:** A wnaiff Tom Middlehurst gyfarwyddo Cyngor Celfyddydau Cymru i ohirio cynlluniau i gau Theatr Gwent? (OAQ2326)

**Tom Middlehurst:** Nid oes gennyf fwriad i stopio gwaith drama Cyngor Celfyddydau Cymru'n stond. Y pwrpas yw cynyddu maint y gwaith gyda phlant a phobl ifanc a chyfeirio mwy o'r arian sydd ar gael yn uniongyrchol i'r gwaith hwnnw yn hytrach nag i weinyddu. Mae elfennau o'r strategaeth ddrama wedi eu gweithredu eisoes.

Mae'r strategaeth yn ganlyniad i broses ymgynghori helaeth gydag awdurdodau lleol, unigolion a mudiadau drama a chelfyddydol. Cafwyd cefnogaeth sylweddol i ddull gweithredu cyffredinol y strategaeth o ganlyniad i hynny.

Y camau priodol i unrhyw blaid sydd yn teimlo nad yw'r cyngor wedi gweithredu'n briodol mewn unrhyw achos penodol yw gofyn i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ymchwilio i'r achos.

## Cynllun Gweithredu ETAG

**C22 Mick Bates:** Pa sicrwydd all Tom Middlehurst ei roi i'r gymuned fusnes na fydd cymryd rhan ym mhroses cynllun gweithredu ETAG ar lefel consortia cymunedol a lefel Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant fod yn dreth o ran amser nac arian ar eu busnes? (OAQ2403)

**Tom Middlehurst:** Mae aelodau o'r gymuned fusnes eisoes yn chwarae rhan yn y gwaith o gynllunio hyfforddiant ac yng ngwaith Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru. O dan gynigion cynllun gweithredu Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, bydd buddiannau busnes yn goleuo'r cynllunio a'r cyflenwi ar addysg a hyfforddiant ôl-16 ar bob lefel. Yr wyf yn sicr y bydd y budd sylweddol a gaiff cyflogwyr o sicrhau bod y cyflenwad o addysg a hyfforddiant uchel eu hansawdd yn berthnasol i'w hanghenion am fedrau, yn peri bod eu buddsoddiad yn un gwerthfawr.

### Cyllid Chweched Dosbarth Ysgolion

**C23 Jonathan Morgan:** A yw'r Weithrediaeth yn ffafrio cyfeirio cyllid chweched dosbarth ysgolion trwy'r awdurdodau addysg lleol? (OAQ2379)

**Tom Middlehurst:** Ni phenderfynwyd yn derfynol eto ynghylch gweithredu argymhellion Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, gan gynnwys y modd yr ariennir dosbarthiadau chwech. Pan fyddaf wedi derbyn cyngor y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 i Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, cyflwyniaf fy nghynigion i'w hystyried.

### Ariannu Dosbarthiadau Chwech (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

**C24 Peter Black:** A yw Tom Middlehurst wedi derbyn barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch y bwriad i sianelu arian chweched dosbarth drwy Gyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru? (OAQ2327) [R]

**Tom Middlehurst:** Cytunais i gyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru cyn hir i drafod pob agwedd ar Gynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Cymru.

### Cymwysterau Ôl-16 trwy Gyfrwng y Gymraeg

**C25 Rhodri Glyn Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i gynyddu'r nifer o gymwysterau ôl-16 sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg? (OAQ2393) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyngor Celfyddydau Cymru

**C26 David Davies:** A oes gan Tom Middlehurst y pwerau angenrheidiol i wyrdroi penderfyniadau a wneir gan Gyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ2325)

**Tom Middlehurst:** Rheolir y berthynas rhwng y Cynulliad a'r cyngor gan ddatganiad rheoli'r cyngor. Mae'r datganiad hwnnw'n dangos yn eglur mai cyfrifoldeb y Cynulliad yw pennu fframwaith cyfreithiol, ariannol a sefydliadol y cyngor; penodi aelodau i'r cyngor; a'i sicrhau ei hun bod y cyngor yn cyflawni ei fusnes yn briodol.

Rôl Cyngor y Celfyddydau yw pennu ei bolisi a'i strategaeth gelfyddydol a dyrannu arian ymysg gwahanol fudiadau yn ôl ei ddyfarniad ei hun ynghylch y flaenoriaeth a roddir i wahanol ffurfiau celfyddydol ac ariannu artistiaid, mudiadau a chanolfannau.

### Dewis o Astudiaethau Ôl-16 (Ardaloedd Gwledig)

**C27 Carwyn Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i ehangu'r dewis o astudiaethau i'r rhai dros 16 oed mewn ardaloedd gwledig? (OAQ2329JS)

**Tom Middlehurst:** Yr ydym wedi ymrwymo i gynyddu'r dewis a'r cyfle mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ledled Cymru. Yr oedd hyn wrth graidd y Papur Gwyrdd 'Rhywbeth i Bawb yw Dysgu' ac, yn fwy diweddar, yr argymhellion a wnaethpwyd gan Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn ei gynllun gweithredu.

### Cynllun Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru

**C28 Kirsty Williams:** A wnaiff Tom Middlehurst ohirio rhoi cynllun strategol Cyngor Celfyddydau Cymru ar waith, o gofio nad yw'r Pwyllgor perthnasol wedi archwilio'r gyllideb ar gyfer y celfyddydau ac nad ydynt wedi trafod y cynllun hyd yma? (OAQ2378)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 eisoes wedi ystyried

cynllun corfforaethol drafft Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 2000-01 i 2002-03, ac mae wedi rhoi sylwadau hefyd ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer y celfyddydau. Cytunaf â'r cyngor ar ei gynlluniau, ar ôl cytuno'n ffurfiol ar y cyllidebau ar gyfer 2000-01.